

# COMISIWN Y GYFRAITH

## CAMYMDDWYN MEWN SWYDD GYHOEDDUS PAPUR MATERION 1 - Y GYFRAITH AR HYN O BRYD

### TROSOLWG

#### Ein prosiect a'r broses ymgynghori

Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad o'r trosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Amcanion ein gwaith diwygio yw penderfynu a ddylai'r trosedd cyfredol o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus gael ei ddiddymu, ei gadw, ei ailddatgan neu ei ddiwygio ac i fwrw ymlaen â pha bynnag gynllun diwygio y penderfynir arno.

*Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus: Papur Materion 1 – y gyfraith ar hyn o bryd* ydy'r ddogfen gyntaf i'w chyhoeddi fel rhan o'r prosiect hwn. Dogfen gefndir yw hon sy'n disgrifio'r ddeddf camymddwyn mewn swydd gyhoeddus fel y mae ar hyn o bryd. Cyfeirir at broblemau sy'n codi mewn meysydd sy'n creu ansicrwydd, yn ogystal â bylchau a hefyd y gorgyffwrdd sy'n digwydd gyda throeddau amgen.

Mae'r Papur Materion, yr atodiadau a'r crynodeb ategol (gan gynnwys fersiynau Cymraeg o'r trosolwg a'r crynodeb) ar gael ar-lein yn: <http://www.lawcom.gov.uk/project/misconduct-in-public-office/>.

Mae'r cysyniadau cyfreithiol sydd ynghlwm wrth y trosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn dechnegol a chymhleth iawn ac nid ydynt yn hygyrch iawn i bobl nad ydynt yn gyfreithwyr. Yn aml hefyd ceir rhywfaint o ddryswch rhwng beth ydy'r gyfaith a beth *ddylai* fod. Mae'r cwestiwn ynghylch ffiniau priodol atebolrwydd troseddol ar gyfer swyddogion cyhoeddus yn amlwg yn fater sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd.

Oherwydd y cymhlethdod hwn a'r ffaith ei fod yn fater dadleuol, rydym wedi rhannu'r broses ymgynghori yn ddau gam er mwyn ehangu'r cwmpas ar gyfer ymgysylltu â'r materion pwysig a godir yn yr adolygiad hwn.

Bydd cam cyntaf yr ymgynghoriad yn cychwyn gyda'n symposiwm o gynadleddwyr a siaradwyr o fri, i gyd-fynd â chyhoeddi'r papur hwn ar 20 Ionawr 2016. Rydym yn canolbwyntio ar y gyfraith fel y mae ar hyn o bryd a'i phroblemau.

Bydd ail gam yr ymgynghoriad yn nodi'r opsiynau ynghylch sut beth ddylai'r ddeddf camymddwyn mewn swydd gyhoeddus fod a bydd yn cynnwys dogfen ymgynghori a fydd yn cael ei chyhoeddi yn ystod y gwanwyn hwn. Bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn 2017.

## Y trosedd a'i broblemau

Trosedd cyfraith gwlad yw camymddwyn mewn swydd gyhoeddus: nid yw'n cael ei ddiffinio mewn unrhyw statud. Y ddedfryd fwyaf y gellir ei rhoi yw carchar am oes. Er mwyn i'r trosedd cael ei gyflawni bydd: swyddog cyhoeddus sy'n gweithredu fel hynny; yn peidio'n fwriadol â chyflawni ei ddyletswyddau a/neu yn camymddwyn yn fwriadol ei hun; i'r fath raddau fel ei fod yn gyfystyr â bradychu ymddiriedaeth y cyhoedd yn neiliad y swydd; heb gyfiawnhad nac esgus rhesymol.

Ystyrir gan lawer bod y diffiniad o'r trosedd yn wael, ac mae wedi cael ei feirniadu'n ddiweddar gan y llywodraeth, y Llys Apêl, y wasg ac academyddion cyfreithiol.

Awgryma ystadegau fod mwy o bobl yn cael eu cyhuddo o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus tra mae llai o gyhuddiadau'n arwain at euogfarnau. Un rheswm posibl yw bod diffyg diffiniad clir o'r trosedd yn ei gwneud yn anodd ei ddefnyddio.

Rydym wedi pennu nifer o broblemau ynglŷn â'r drosedd:

- (1) Nid oes diffiniad clir o "swydd gyhoeddus" ac eto mae'n elfen hollbwysig o'r trosedd. Mae'r amwysedd hwn yn creu anawsterau mawr wrth ddehongli a defnyddio'r trosedd.
- (2) Nid oes diffiniad da o'r mathau o ddyletswydd a all wneud rhywun yn gymwys i fod yn ddeiliad swydd gyhoeddus. Hefyd, nid yw'n glir o gyfraith achosion a yw'n hanfodol profi bod y dyletswyddau penodol hynny wedi'u torri.
- (3) Mae "bradychu ymddiriedaeth y cyhoedd" yn hanfodol fel elfen drothwy'r trosedd, ond mae mor aneglur fel ei bod yn anodd i ymchwilyr, erlynwyr a rheithgorau ei gymhwyso.
- (4) Mae'r elfen bai y mae'n rhaid ei phrofi ar gyfer y trosedd yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae hynny'n sefyllfa anghyffredin a diegwyddor.
- (5) Er bod "cyfiawnhad nac esgus rhesymol" yn ymddangos fel elfen o'r trosedd, nid yw'n glir a yw'n bodoli fel amddiffyniad ar ei ben ei hun neu fel elfen ddiffiniol o'r trosedd.

Yn hanesyddol, roedd y trosedd yn dal swyddogion cyhoeddus i gyfrif am eu camymddwyn, lle nad oedd ffyrdd digonol eraill o wneud hynny. Heddiw, mae camymddwyn o'r fath fel arfer yn cyfateb i drosedd mwy cyfyng, wedi'i ddiffinio'n well.

Mae'r problemau â'r ddeddf bresennol yn codi'r cwestiwn a yw'r trosedd yn parhau i fod yn ddefnyddiol. Gellir dadlau ei fod oherwydd:

- (1) efallai fod diffiniadau cyfyngedig i droseddau eraill, ac yn fwy anodd eu defnyddio;
- (2) efallai nad yw troseddau eraill yn darparu pwerau dedfrydu digonol;

- (3) mae'r trosedd yn rhoi sylw i fath o gamymddwyn sy'n wahanol i'r mathau sy'n cael eu hystyried dan droseddau eraill;
- (4) mae'r trosedd yn darparu label mwy priodol i adlewyrchu natur y camymddwyn sy'n cael ei ddefnyddio i erlyn; neu
- (5) efallai na fyddai modd i rai mathau o ymddygiad a erlynir fel camymddwyn mewn swydd gyhoeddus gael eu herlyn o gwbl pe na fyddai'r trosedd yn bodoli.

Rydym yn gobeithio y bydd y papur hwn a'r symposiwm yn rhoi cyfle inni sbarduno trafodaeth wybodus am y problemau sydd wedi'u nodi, yr opsiynau ar gyfer diwygio ac i ymgysylltu ag ymarferwyr ac arbenigwyr sy'n delio â'r trosedd. Hoffem gael ymatebion i'r cwestiynau a geir ym Mhapur Materion 1 erbyn 20 Mawrth 2016.